



HANES PLAID

Cylchlythyr Cymdeithas Hanes Plaid Cymru Rhifyn 2

Haf 2019

Darganfod Gwreiddiau'r Plaid



Dr Robin Chapman

Bydd cyfle i glywed mwy am y cyfnod cyn ffurfio Plaid Cymru gan hanesydd o fri yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Bydd Dr Robin Chapman yn traddodi darlith ar y testun "Oni fu pensaer eisoes yn ein mysg?: golwg ar genedlaetholdeb Cymreig cyn 1925" yn ystod y Brifwyl yn Llanrwst.

Yn siaradwr poblogaidd ac yn awdur toreithiog, mae Robin Chapman yn uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Efe yw awdur cofiant sylweddol am Islwyn Ffowc Elis.

Traddodir ei ddarlith yn y Gymraeg ym Mhabell Y Cymdeithasau 2 am 12:30pm, Dydd Iau, 8 Awst 2019.

Abi Williams, Llywydd Anweledig

Oes rhywun yn rhywle yn gallu bwrw goleuni ar hanes cynnar gŵr o Feirionnydd a fu am ddwy flynedd yn arweinydd Plaid Cymru?

Daeth Abi Williams i'r swydd ar ôl i'r Athro J.E. Daniel ymddeol o'r llywyddiaeth yn 1943 a chyn i Gwynfor Evans ddod yn arweinydd yn 1945. Bu'n gweithio'n syrfêwr llywodraeth leol yn Sir y Fflint ac yr oedd wedi ystyried dod yn weinidog yr efengyl ar un adeg. Credir bod ei deulu'n hanu o ardal Corwen.

Byddai unrhyw fanylion am ei fywyd cynnar a'i gefndir teuluol yn ddifyr - ac yn bennaf oll, oes llun ohono'n rywle?

Gwladgarwr Arloesol – Bywyd Wynne Samuel




Cyhoeddwyd portread newydd o Dr Wynne Samuel – un a ystyriwyd ar un adeg yn arweinydd posibl o'r mudiad cenedlaethol. Mae'r deyrnged hon gan gadeirydd Cymdeithas Hanes Plaid Cymru Dafydd Williams yn olrhain gyrfa hynod

Wynne, ac yn cyhoeddi nifer o luniau a ddogfennau am y tro cyntaf.

Cewch ddarllen y deyrnged ar wefan Hanes Plaid (www.hanesplaidcymru.org).

Beth Am Blac Glas?



Ryw saith blynedd yn ôl, penderfynodd Cangen Penarth o'r Plaid ei bod yn hen bryd dathlu hanes Saunders Lewis, un o arweinwyr cyntaf y Blaid a drigai am flynyddoedd yn y dre.

Aethon nhw ati o ddifri, ac yn 2015 gyda chydweithrediad parod perchennog presennol y tŷ a chydweithrediad y Gymdeithas Hanes, fe ddadorchuddiwyd y plac gan Lywydd Anrhydeddus y Blaid, Dafydd Wigley.

Beth am dathlu hanes y mudiad cenedlaethol yn eich ardal chi? Nid yw mor anodd â hynny - gofynnwch am fanylion.

Pwy Oedd Tad-cu Dafydd Iwan?

Un o'r chwech a sefydlodd Blaid Cymru mewn cyfarfod ym Mhwlheli yn y flwyddyn 1925 oedd y Parchedig Fred Jones (1877-1948), un o deulu enwog y Cilie.

Mae Dafydd Iwan wedi cytuno i siarad am hanes ei dad-cu mewn cyfarfod arbennig o Gymdeithas Hanes Plaid Cymru pan ddaw'r Gynhadledd Flynyddol i Abertawe nes ymlaen eleni (Dydd Gwener a Sadwrn 4-5 Hydref 2019).

Cymdeithas Hanes Plaid Cymru

Amcanion y gymdeithas yw hybu trafodaeth, gwybodaeth ac ymchwil am hanes Plaid Cymru ac agweddau o hanes sy'n ymwneud â Phlaid Cymru. Rydyn ni hefyd yn gweithio ers ein sefydlu yn 2011 i ehangu gwybodaeth am bobl a digwyddiadau a gyfrannodd at hanes cyfansoddiadol ein gwlad cyn 1925.

Gwefan Hanes Plaid

Cofiwch edrych ar wefan y Gymdeithas - yn llawn o eitemau difyr am weithgareddau'n mudiad cenedlaethol. Ewch at: www.hanesplaidcymru.org - a cheir tudalen Weplyfr ar [@hanesplaidcymru](https://twitter.com/hanesplaidcymru).

Cysylltu â ni

Oes gyda chi eitemau hanesyddol yr hoffech eu trosglwyddo i ofal y Gymdeithas? Cysylltwch â ni drwy e-bostio history@hanesplaidcymru.org.